# Cyfryngau Cymdeithasol

Mae Casnewydd Fyw yn ymgysylltu â'i gwsmeriaid bob dydd ar ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Rydym yn defnyddio Twitter a Facebook yn benodol i roi gwybodaeth ddiweddar i'n cwsmeriaid ar weithgareddau a chynigion, gan roi'r newyddion diweddaraf ac adroddiadau am ddigwyddiadau gan gynnwys lluniau a fideos.

Mae Casnewydd Fyw yn croesawu adborth gan gwsmeriaid ar ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr ymgysylltu a rhyngweithio o'r fath. Rydym hefyd yn cydnabod bod gan cwsmeriaid hawl i leisio eu barn am Gasnewydd Fyw pan fo'n briodol.

Fodd bynnag, fel sefydliad sy'n canolbwyntio ar y gymuned, ni fyddwn yn goddef sylwadau ar gyfryngau cymdeithasol sy'n ymosodol, treisgar, sy'n gwahaniaethu, sy'n anweddus neu sy'n cynnwys iaith gref, waeth os yw sylwadau o'r fath wedi'u targedu at gwsmeriaid eraill, Casnewydd Fyw, ei staff neu wirfoddolwyr.

Mewn amgylchiadau o'r fath, byddwn yn cymryd camau priodol yn erbyn yr unigolion perthnasol. Gall hyn gynnwys gwaharddiadau dros dro neu barhaol o dudalen Facebook Casnewydd Fyw, unigolion yn cael eu gwahardd dros dro neu'n barhaol gan ein cyfrif Twitter, a chyfrifon defnyddwyr yn cael eu hadrodd i'r awdurdodau perthnasol.

Mewn amgylchiadau eithriadol, bydd Casnewydd Fyw yn fodlon sicrhau bod yr heddlu a'r llysoedd ynghlwm.

Mae trais ar-lein yn dueddiad cynyddol a phryderus. Gall camdrin staff neu wirfoddolwyr gael effaith sylweddol ar unigolion a'u teuluoedd, ac mae gan Gasnewydd Fyw ddyletswydd gofal dros bawb sy'n gweithio neu'n gwirfoddoli iddyn nhw.

Rydym yn wirioneddol gwerthfawrogi'r gefnogaeth anhygoel y mae Casnewydd Fyw yn ei chael gan gwsmeriaid a'r cyhoedd yn gyffredinol ac yn cydnabod bod y materion y cyfeiriwyd atynt yn y datganiad hwn yn berthnasol i ychydig bach iawn o ddefnyddwyr cyfryngau cymdeithasol. Wedi dweud hynny, mae'n bwysig bod Casnewydd Fyw yn datgan ei sefyllfa'n glir ar y materion hyn er budd ein staff a'n gwirfoddolwyr, a mwyafrif helaeth ein cwsmeriaid a'r cyhoedd.